# LC1445

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991. Mae’r Rheoliadau’n darparu ar gyfer adolygu’r trefniadau i leoli plant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu sy’n cael eu lletya gan gyrff gwirfoddol neu gan gartrefi plant preifat.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae testun Saesneg y diffiniad o "the area in which the child is ordinarily resident" yn cynnwys iaith ryw-benodol, yn ogystal â pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 3. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)].

Mae testun Cymraeg paragraff 5 o Atodlen 2 yn hepgor geiriau sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth drosiannol sy’n berthnasol i blant sy’n cael llety o dan Reoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg Atodlen 3, mae’r term "oral health" yn cael ei gyfieithu fel "iechyd geneuol" ym mharagraff 1 ac fel "iechyd y geg" ym mharagraff 8. Yn ddelfrydol dylid defnyddio termau cyson. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gellir cywiro’r pwyntiau uchod i gyd drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am yr awgrymiadau o ran mewnosod troednodiadau wrth eu cyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 30 Ionawr 2007